# Peirianwyr Ymgynghorol Datrys Cyfyngedig: Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymgeiswyr

**Beth yw pwrpas yr hysbysiad hwn?**

Mae Datrys Cyfyngedig yn “rheolydd data”. Golyga hyn ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut yr awn ati i gadw a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Rydym yn anfon copi o’r hysbysiad preifatrwydd hwn atoch gan eich bod yn ymgeisio i weithio gyda ni (naill ai fel cyflogai, gweithiwr neu gontractwr). Bydd yr hysbysiad hwn yn nodi sut a pham y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio, sef at ddibenion yr ymarfer recriwtio, a hefyd bydd yn nodi am ba hyd y bydd y data’n cael ei gadw fel arfer. Bydd yn cyflwyno gwybodaeth y mae’n ofynnol inni ei chyflwyno dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR, 2016/679).

**Beth yw egwyddorion diogelu data?**

Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith ac egwyddorion diogelu data. Golyga hyn:

- y bydd eich data yn cael ei ddefnyddio’n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw;
- y bydd eich data yn cael ei gasglu at ddibenion dilys yn unig – dibenion a esboniwyd yn glir – ac na fydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd a fydd yn anghydnaws â’r dibenion hynny;
- y bydd eich data yn berthnasol i’r dibenion y soniwyd amdanynt ac y bydd yn cael ei gyfyngu i’r dibenion hynny yn unig;
- y bydd eich data yn gywir ac y bydd yn cael ei ddiweddaru;
- y bydd eich data yn cael ei gadw cyhyd ag y bo angen yn unig ar gyfer y dibenion y soniwyd amdanynt;
- y bydd eich data yn cael ei gadw’n ddiogel.

**Sut fath o wybodaeth a gedwir amdanoch?**

O ran eich cais i weithio gyda ni, byddwn yn casglu, yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy’n perthyn i’r categorïau canlynol:

- Yr wybodaeth a gyflwynwyd yn eich curriculum vitae a’ch llythyr eglurhaol. Yr wybodaeth a gyflwynwyd ar eich ffurflen gais, yn cynnwys eich enw, eich teitl, eich cyfeiriad, eich rhif ffôn, eich cyfeiriad e-bost personol, eich dyddiad geni, eich rhywedd, hanes eich cyflogaeth, eich cymwysterau a’ch trwydded yrru.
- Unrhyw wybodaeth a gyflwynwch yn ystod y cyfweliad.
- Ymarferion asesu.

Efallai hefyd y byddwn yn casglu, yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol fwy sensitif sy’n perthyn i “gategorïau arbennig”:

- Gwybodaeth am eich hil neu eich ethnigrwydd, eich credau crefyddol, eich cyfeiriadedd rhywiol a’ch barn wleidyddol.

- Gwybodaeth am eich iechyd, yn cynnwys cyflyrau meddygol, cofnodion iechyd a chofnodion salwch.
- Gwybodaeth am euogfarnau a throseddau.

**Sut y byddwch yn casglu data amdanaf?**

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr trwy ddefnyddio'r ffynonellau canlynol:

- Chi, yr ymgeisydd.
- Unrhyw asiantaeth recriwtio a ddefnyddiwn. Byddwn yn casglu data sy'n perthyn i'r categorïau canlynol: y rhai a restrir yn yr adran 'Sut fath o wybodaeth a gedwir amdanoch?'.
- Eich canolwyr. Byddwn yn casglu data sy'n perthyn i'r categorïau canlynol: cadarnhad o hanes blaenorol eich cyflogaeth y gŵyr y canolwr amdano.
- Daw'r data canlynol, sy'n deillio o drydydd partïon, o ffynhonnell sydd ar gael i'r cyhoedd: proffiliau/gweithgareddau ar-lein – Linkedin a Twitter.

**Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth?**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch i wneud y canlynol:

- Asesu eich sgiliau, eich cymwysterau a'ch addasrwydd ar gyfer y rôl.
- Gwirio eich cefndir a'ch geirdaon, pan fo hynny'n berthnasol.
- Cyfathrebu gyda chi ynglŷn â'r broses recriwtio.
- Cadw cofnodion yn ymwneud â'n prosesau cyflogi.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Mae penderfynu a ddylid eich penodi yn fater sydd o fuddiant dilys inni, oherwydd byddai penodi rhywun i ymgymryd â'r rôl o fudd i'n busnes.

Hefyd, rhaid inni brosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn penderfynu a ddylem lunio cytundeb cyflogaeth gyda chi.

Ar ôl derbyn eich CV a/neu eich llythyr eglurhaol neu eich ffurflen gais (fel y bo'n berthnasol), byddwn yn prosesu'r wybodaeth honno er mwyn penderfynu a ydych yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer eich rhoi ar y rhestr fer. Os byddwch yn bodloni'r gofynion hynny, byddwn yn penderfynu a yw eich cais yn ddigon cryf i'ch gwahodd i gyfweliad. Os penderfynwn eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwch yn y cyfweliad i benderfynu a ddylem gynnig y rôl ichi. Os penderfynwn gynnig y rôl ichi, byddwn yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'ch geirdaon cyn cadarnhau'r penodiad.

Pan fydd angen archwilio elfennau penodol ar gyfer eich rôl – er enghraifft, os bydd cleientiaid yn gofyn inni fynd i'r afael â gwaith fetio penodol – byddwn yn rhoi gwybod ichi mewn hysbysiad ar wahân.

**Os methwch â chyflwyno gwybodaeth bersonol.**

Os methwch â chyflwyno gwybodaeth bersonol ar gais, sef gwybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn inni

allu ystyried eich cais (megis tystiolaeth o gymwysterau neu hanes eich cyflogaeth), ni fydd modd inni brosesu eich cais yn llwyddiannus. Er enghraifft, os byddwn angen geirdaon ar gyfer y rôl ac os methwch â rhoi'r manylion perthnasol inni, ni fydd modd inni fwrw ymlaen â'ch cais.

**Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol sensitif?**

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol sensitif yn y ffyrdd a ganlyn:

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich statws anabledd i ystyried a oes angen inni wneud addasiadau priodol yn ystod y broses recriwtio, er enghraifft a oes angen gwneud addasiadau yn ystod yr ymarfer asesu neu'r cyfweliad.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu eich tarddiad cenedlaethol neu ethnig, eich credau crefyddol, athronyddol neu foesegol, neu eich bywyd rhywiol neu eich cyfeiriadedd rhywiol, er mwyn sicrhau y rhoddir dulliau monitro ac adrodd ystyrlon ar waith mewn perthynas â chyfle cyfartal.

**Sut rydych yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol?**

Yn achos y rhan fwyaf o swyddi, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn prosesu gwybodaeth am euogfarnau troseddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn tynnu ein sylw at rywbeth wrth lenwi'r ffurflen gais.

Os byddwch yn ymgeisio am rai rolau arbennig, er enghraifft yn yr adran Gyllid, byddwn yn casglu gwybodaeth am eich euogfarnau troseddol os hoffem gynnig y rôl ichi (cyn belled ag y bydd unrhyw archwiliadau ac unrhyw amodau eraill, megis geirdaon, yn foddhaol). Mae gennym hawl i archwilio cofnodion troseddol er mwyn inni allu ein bodloni ein hunain nad oes unrhyw beth yn hanes eich euogfarnau troseddol yn golygu eich bod yn anaddas ar gyfer y rôl. Mae ymddiriedaeth ac uniondeb yn hollbwysig, yn enwedig mewn swyddi Cyllid, oherwydd bydd angen delio ag arian mewn swyddi o'r fath; felly, hoffem ofyn ichi geisio datgeliad sylfaenol mewn perthynas â hanes eich cofnodion troseddol.

Os byddwch yn ymgeisio am swydd fel technegydd neu beiriannydd, dylech fod yn ymwybodol y gall rhai cleientiaid ofyn inni gynnal proses fetio ar y rhai a fydd yn mynd ar eu safleoedd, er mwyn atal Terfysgaeth. Os cewch eich penodi ar brosiectau o'r fath, efallai y gofynnir ichi gydsynio i broses a fydd yn ymchwilio i'ch cefndir, yn cynnwys datgeliad sylfaenol mewn perthynas â hanes eich cofnodion troseddol.

Mae gennym ddogfen bolisi a mesurau diogelu priodol ar waith, ac mae'r gyfraith yn mynnu bod yn rhaid inni eu cynnal wrth brosesu data o'r fath.

Pan gaiff cofnodion troseddol eu datgelu, rhaid inni ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu a fyddwn yn eich cyflogi neu yn eich cymryd ymlaen, yn unol â chanllawiau NACRO:

- A yw'r euogfarn (neu'r mater arall a ddatgelwyd) yn berthnasol i'r swydd dan sylw.
- Difrifoldeb y drosedd.
- Faint o amser sydd wedi mynd heibio ers cyflawni'r drosedd.
- A oes patrwm troseddu neu faterion perthnasol eraill yn dod i'r amlwg.
- A yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers yr ymddygiad troseddol.
- Yr amgylchiadau a oedd yn berthnasol i'r drosedd a'r esboniad a gynigir gan yr unigolyn dan

sylw.

## PROSES BENDERFYNU AWTOMATIG

Yn achos penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol arnoch, ni fyddant yn cael eu gwneud trwy ddefnyddio proses benderfynu awtomatig yn unig.

## RHANNU DATA

### Pam y gallech rannu gwybodaeth bersonol amdanaf gyda thrydydd parti?

Dim ond ar gyfer prosesu eich cais y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda'r partïon a ganlyn: asiantaethau cyflogaeth a'n hymgynghorydd AD. Mae'n ofynnol i bob un o'n darparwyr trydydd parti roi mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisïau. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain. Yr unig beth y caniateir iddynt ei wneud yw prosesu eich data personol at ddibenion penodol, yn unol â'n cyfarwyddiadau.

### Pa fesurau diogelwch a roddwch ar waith?

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu ei chyrchu mewn modd anawdurdodedig, ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol at hyn, dim ond cyflogeion, asiantau, contractwyr a phartïon sydd angen yr wybodaeth at ddibenion busnes a fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth bersonol. Byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n cyfarwyddiadau a rhoddir dyletswydd cyfrinachedd arnynt.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio â thramgwyddau diogelu data posibl a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol ynglŷn â thramgwyddau posibl pan fo'n ofynnol inni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

### Am ba hyd y byddwch yn defnyddio fy ngwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am 6 mis ar ôl inni eich hysbysu ynglŷn â'n penderfyniad i'ch penodi neu beidio â'ch penodi. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod hwnnw er mwyn inni allu dangos nad ydym wedi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail waharddedig (pe bai hawliad cyfreithiol yn cael ei gyflwyno) a'n bod wedi cynnal yr ymarfer recriwtio mewn ffordd deg a thryloyw. Ar ôl y cyfnod hwnnw, byddwn yn dinistrio eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisi cadw data. Os byddwn yn dymuno cadw eich gwybodaeth bersonol yn ein ffeiliau, rhag ofn y daw cyfle arall am swydd yn y dyfodol a rhag ofn y byddwn yn dymuno eich ystyried ar gyfer y swydd honno, byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân i ofyn am eich caniatâd penodol i gadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod penodedig ar y sail honno.

### Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol

Mewn rhai amgylchiadau arbennig, mae'r gyfraith yn pennu bod gennych hawl i wneud y canlynol:

- **Gofyn am gael mynediad** at eich data personol (gelwir hyn yn "gais am fynediad at ddata gan y testun"). Bydd hyn yn eich galluogi i gael copi o'ch gwybodaeth bersonol a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.

- **Gofyn am gael cywiro** eich gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir yn eich cylch.
- **Gofyn am gael dileu** eich gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn eich galluogi i ofyn inni ddileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol pa na fo rheswm da dros barhau i'w phrosesu. Hefyd, mae gennych hawl i ofyn inni ddileu neu gael gwared â'ch gwybodaeth bersonol mewn sefyllfa pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu'r arfer o brosesu eich gwybodaeth bersonol (gweler isod).
- **Gwrthwynebu'r arfer o brosesu** eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn yn dibynnu ar fuddiant dilys (neu fuddiannau dilys trydydd parti) a phan fo rhywbeth ynglŷn â'ch sefyllfa arbennig yn golygu eich bod yn gwrthwynebu'r arfer o brosesu eich gwybodaeth bersonol. Hefyd, mae gennych hawl i wrthwynebu pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Gofyn am gael cyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn eich galluogi i ofyn inni atal yr arfer o brosesu eich gwybodaeth bersonol, er enghraifft os ydych yn dymuno cadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir neu gadarnhau pam y caiff ei phrosesu.
- **Gofyn am gael trosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych yn dymuno adolygu, dilysu, cywiro neu ddileu eich gwybodaeth bersonol, os ydych eisiau gwrthwynebu'r arfer o brosesu eich data personol, neu os hoffech wneud cais i drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â [SWYDD] yn ysgrifenedig.

**Â phwy y dylwn gysylltu er mwyn cael rhagor o wybodaeth?**

Rydym wedi penodi rheolwr preifatrwydd data i wneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu ynglŷn â'r modd y byddwn yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r rheolwr preifatrwydd data. Mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg, sef yr awdurdod sy'n goruchwylio materion yn ymwneud â diogelu data o fewn y DU.

Rwyf i, ________________ (enw'r ymgeisydd), yn cydnabod fy mod, ar _________________ (dyddiad), wedi cael copi o'r ddogfen 'Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymgeiswyr' gan Datrys, a'm bod wedi darllen a deall y ddogfen hon.

Llofnod

………………………………………………

Enw

…………………………………………………